



Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru
The Voice of Community and Town Councils in Wales

Nodyn Datblygu Ymarfer 7

Presenoldeb gan Aelodau: Y rheol 6 mis
Dyddiad Cyhoeddi

Awst 2024

Dyddiad Adolygu

Awst 2025

Mae'r wybodaeth hon yn eiddo i Un Llais Cymru trwy hawlfraint. Fe'i cynhyrchwyd ar gyfer aelodau Un Llais Cymru yn unig. Dylech gysylltu ag Un Llais Cymru os ydych yn bwriadu dosbarthu'r wybodaeth hon y tu allan i'ch Cyngor.

Lyn Cadwallader BA(Hons), PGDipHsg, DBA, PGDipLOPS, Chartered MCIH
Prif Weithredwr/Chief Executive www.onevoicewales.org.uk

Nodyn Datblygu Arfer 7 Un Llais Cymru

Presenoldeb gan Aelodau: Y rheol 6 mis

Canllaw syml i Gyngorau Cymuned a Thref

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
1. Cyflwyniad: Y rheol chwe mis ar gyfer presenoldeb			
1.1 Os yw Aelod yn methu mynychu cyfarfod o fewn cyfnod o chwe mis, mae'r Aelod hwnnw/honno yn peidio bod yn aelod o'r cyngor yn syth, oni bai fod y methiant oherwydd rhyw reswm a gymeradwywyd gan y cyngor cyn diwedd y cyfnod o chwe mis.	Gofyniad statudol	Rhaid i Aelod fynychu o leiaf un cyfarfod bob chwe mis.	O fewn cyfnod o chwe mis.
1.2 Mae hon yn rheol ddigon pendant, ac mae'n anodd iawn ei hosgoi. Fel sy'n digwydd yn aml, mae'n gallu bod yn anodd dehongli'r ddeddfwriaeth . Y gobaith yw y bydd y nodyn hwn yn helpu.	Sicrhau cydymffurfiaeth		Astudio'r Canllawiau CGAPh

2. Beth sy'n gwneud cyfarfod?			
2.1 Mae "mynychu cyfarfod" yn cynnwys y Cyngor Llawn neu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor.	Gofyniad statudol	O fewn cyfnod o chwe mis	Rhaid i Aelod fynychu o leiaf un cyfarfod bob chwe mis.
2.2 Mae hefyd yn cynnwys unrhyw gyd bwyllgor, cyd fwrdd, neu gorff arall sydd ar y pryd yn gyfrifol am gyflawni unrhyw un o gyfrifoldebau'r Cyngor. Mae'n cynnwys corff a benodir i gynghori'r Cyngor ar unrhyw fater yn ymwneud â chyflawni ei gyfrifoldebau.			
2.3 Mae mynychu cyfarfod i gynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod o unrhyw gorff o bobl yn cyfrif yn "bresenoldeb" hefyd.			
2.4 A yw "digwyddiadau" yn cyfrif? Sul y Cofio, gwasanaeth carolau neu ffair haf? Os ydynt yn ddigwyddiadau swyddogol a drefnir neu a gefnogir gan y Cyngor,			

mae'n bosib iawn y byddent yn cyfrif. Ni fyddai hynny'n wir am sgwrs mewn siop gyda pherson lleol.			
----------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	--

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
3. Eithriadau			
<p>3.1 Mae aelodaeth o'r lluoedd arfog adeg rhyfel yn esgus statudol. Felly hefyd y mae gwasanaethu o dan y Goron o ran rhyfel neu argyfwng.</p> <p>Mae'n golygu na ellir anghymwyso'r Aelod oherwydd absenoldeb os yw'r methiant oherwydd y gyflogaeth honno.</p>			

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
4. Cymeradwyo absenoldebau			

<p>4.1 Os yw cynghorydd am i'w habseoldeb o gyfarfod gael ei gymeradwyo gan y Cyngor, dylent wneud cais ysgrifenedig ynghyd â'r rheswm am yr absenoldeb cyn i'r cyfarfod ddigwydd.</p>	<p><u>Deddf Llywodraeth Leol 1972 s85.</u></p>	<p>Rhaid gwneud hynny cyn y cyfarfod. Ni all fod yn ôl-weithredol.</p>	<p>Cyn y cyfarfod y mae'r absenoldeb yn ymwneud ag ef,</p>
<p>4.2 Dylai'r Cyngor benderfynu a phleidleisio ar gymeradwyo'r absenoldeb.</p>	<p><u>Deddf Llywodraeth Leol 1972 s85.</u></p>		
<p>4.3 Os yw Aelod yn sâl/dost, gall y Cyngor gymeradwyo'r absenoldeb heb gais ysgrifenedig.</p>		<p>Bydd hyn yn galw ar y Clerc i fod yn effro wrth fonitro lefelau presenoldebau, ac mewn sefyllfaoedd felly gall y Clerc gynnwys y mater ar agenda cyfarfod o'r Cyngor er mwyn cymeradwyo absenoldeb yr aelod dan sylw.</p>	<p>Monitro presenoldeb yn rheolaidd.</p>

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
<p>5. Ymddiheuriadau am absenoldeb</p>			

<p>5.1 Nid oes rhaid cyflwyno ymddiheuriadau yn ysgrifenedig, ond dylid cofnodi'r rheswm. Fodd bynnag, os yw'r absenoldeb yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol, rhaid gwneud hynny trwy benderfyniad o blaid ei gymeradwyo.</p>		Yn y cyfarfod	Yn y cyfarfod
<p>5.2 Dylai'r Cyngor benderfynu a phleidleisio ar gymeradwyo absenoldeb. <i>Nid</i> yw cael, derbyn a nodi ymddiheuriadau ynddynt eu hunain yn golygu fod y Cyngor yn cymeradwyo'r absenoldeb yn ffurfiol.</p>			

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
6. Os yw Aelod yn torri'r rheol			
6.1 Os yw Aelod yn torri'r rheol hon, cânt eu hanghymwysu yn syth.		Yn syth	Yn syth
6.2 Dylai'r Cyngor gyhoeddi'n ffurfiol fod y sedd yn wag ar y cyfle cyntaf a rhoi gwybod i Swyddog Cofrestru Etholiadol, neu'r swyddog cyfatebol, y Cyngor (Bwrdeistref) Sirol.		Cyn gynted ag y daw'r sedd yn wag	Cyn gynted ag y daw'r sedd yn wag
6.3 Cyhoeddir yr hysbysiad am y sedd wag. Gwneir hynny fel arfer gan y Cyngor (Bwrdeistref) Sirol, er y gall trefniadau lleol fod yn wahanol. Caiff etholiad ei alw os yw deg etholwr yn gofyn am hynny.		Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad cyn gynted ag y bo modd. Y drefn arferol yw bod y Tîm Gwasanaethau Etholiadol yn llunio'r hysbysiad ac yn gofyn i'r Cyngor Cymuned ei gyhoeddi'n lleol.	Mae gan etholwyr 14 diwrnod i ofyn am etholiad

<p>6.4 Os na ofynnir am etholiad, gellir llenwi'r sedd wag trwy gyfethol.</p> <p>Bydd Un Llais Cymru yn cyhoeddi rhagor o ganllawiau ar y broses hon, ond yn y cyfamser, efallai y bydd y cyngor hwn gan Gyngor Bro Morgannwg yn ddefnyddiol i gynghorau.(Rhan B)</p> <p>(Sylwer: erbyn hyn mae'r cyfnod gwasanaeth yn bum mlynedd nid pedair).</p>			<p>Cyn gynted ag y mae'n ymarferol.</p>
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	-----------------------------------------

Rhai awgrymiadau allweddol:

- Astudiwch y rheolau yn ofalus. Gofynnwch am gyngor os ydych yn wynebu sefyllfa gymhleth.
- Byddwch yn ofalus wrth gofnodi ymddiheuriadau am absenoldeb. Nid yw cyflwyno ymddiheuriad yn golygu'r un peth â gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol i fod yn absennol, sy'n galw am benderfyniad ffurfiol, fel yr esboniwyd uchod. Rhaid i absenoldebau gael eu cymeradwyo'n *ffurfiol* er mwyn osgoi'r rheol chwe mis.
 - Rhaid i gofnodion y cyfarfod gofnodi a benderfynwyd cymeradwyo absenoldeb Aelod o'r cyfarfod, ac os yn bosib, y rheswm am yr absenoldeb. Ni ddylai hynny wrthdaro â'r ddyletswydd i drin data personol neu ddata sensitif yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Er enghraifft, os oedd yr absenoldeb oherwydd afiechyd, gallai'r cofnodion gofnodi hynny ond nid manylion yr afiechyd. Mater i'r cyngor yw cyfnod yr absenoldeb a gymeradwyir.
- Peidiwch â thorri corneli. Mae mynychu digwyddiadau yn bwysig, ond nid yw'n cymryd lle cymryd rhan mewn cyfarfodydd Cyngor a gwneud penderfyniadau. Mae cymryd rhan mewn cyfarfodydd Cyngor yn rhan bwysig o rôl Aelod fel aelod o gorff statudol a etholwyd yn ddemocrataidd. Mae'n faes lle y maent yn cynrychioli'r gymuned ac yn eiriol ar ei rhan.
- Gofalwch eich bod wedi trefnu'r canlynol:
 - (i) Cadwch gofnod manwl o bresenoldeb. Gwysir Aelodau i fynychu cyfarfodydd Cyngor a dylent eu mynychu. Ystyriwch gofyn iddynt gadarnhau ymlaen llaw eu bwriad i fod yn bresennol.
 - (ii) Cyflwynwch ddalen bresenoldeb i'w llofnodi gan Aelodau, i gefnogi nodiadau'r Clerc. (Gellir ei defnyddio hefyd i gofnodi datganiadau o fuddiannau.)
 - (iii) Cofiwch roi sylw arbennig i'r angen i gofnodi unrhyw Aelodau sy'n mynychu o bell.
 - (iv) Gwiriwch fod y cofnodion yn cofnodi pwy oedd yn bresennol. Ceisiwch osgoi torri a gludo o gofnodion y mis diwethaf, gan ei bod yn hawdd gwneud camgymeriad.
 - (v) Cofnodwch unrhyw Aelodau oedd yn absennol. Bydd hyn yn helpu osgoi unrhyw amheuaeth. (Mae'n debyg y bydd eich rheolau sefydlog yn mynnu hyn beth bynnag.)
 - (vi) Cytunwch eich safbwynt ar Aelodau sydd yn mynychu rhan o gyfarfod yn unig. Gellir ystyried fod Aelodau sy'n bresennol am ran o gyfarfod yn unig wedi mynychu'r cyfarfod at ddibenion y rheol chwe mis ond gallech ystyried cofnodi os yw Aelod yn cyrraedd yn hwyr neu'n gadael yn gynnar. Bydd hyn yn helpu hefyd gydag unrhyw bleidleisiau a gymerir neu ddatganiadau o fuddiannau.
 - (vii) Cadwch gofnod o ba Aelodau sy'n mynychu pa gyfarfodydd ac ati er mwyn cadw cofnod presenoldeb.

- (viii) Os yw'r adnoddau gennych, ystyriwch gyhoeddi lefelau presenoldeb ar-lein, ar eich hysbysfyrddau a/neu yn yr Adroddiad Blynyddol. Bydd hyn yn gwella atebolrwydd.
- (ix) Atgoffwch Aelodau mai eu cyfrifoldeb *nhw* yw mynychu'n rheolaidd. Gall y Clerc helpu (gweler isod) ond cyfrifoldeb Aelodau yw cadw at y rheol.
- (x) Meddyliwch am a ydych eisiau i'r Clerc atgoffa unrhyw Aelodau sy'n agosáu at y dyddiad cau fod angen iddynt fynychu cyfarfod. Gofalwch hefyd eich bod yn gwneud hynny'n gyson a theg.